




The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau Gorchymyn Diogelu Coed



Atodiad 13

Apeliadau Gorchymyn Diogelu Coed (TPO)

1. Gorchymyn Diogelu Coed (TPO) yw gorchymyn a wneir gan Awdurdod mewn perthynas â choeden/coed oherwydd ystyrir bod y goeden yn gwella amwynder yr ardal amgylchynol. Mae'r gorchymyn yn ei gwneud hi'n drosedd i dorri, diwreiddio, tocio, brigdorri neu ddifrodi'r goeden dan sylw heb gael caniatâd yr Awdurdod yn gyntaf. Gall TPO fod yn berthnasol i un goeden, grŵp o goed neu goetir.

2. Mae Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y Ddeddf), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) (Diwygio) (Cymru) 2017, yn rhoi grymoedd i Awdurdodau Lleol ymdrin â cheisiadau am ganiatâd i wneud gwaith ar goed neu gael gwared ar goed sy'n cael eu gwarchod gan orchymynion diogelu, gwneud penderfyniadau a rhoi caniatâd gydag amodau neu hebddynt. Mae Adran 78 yn rhoi'r hawl i bobl sy'n anfodlon ar benderfyniad cyngor apelio at Weinidogion Cymru.

3. A oes gennyf hawl i apelio?

3.1 Gallwch chi, neu asiant sy'n gweithredu ar eich rhan, apelio os chi oedd y sawl a wnaeth y cais am y gwaith ar y goeden.

4. Rhesymau dros yr apêl

4.1 Ceir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad Awdurdod ar un o'r seiliau canlynol:

- gwrthod rhoi caniatâd gan yr Awdurdod;
- unrhyw amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd yr Awdurdod;
- gwrthodiad/methiant yr Awdurdod i roi gwybod i'r ymgeisydd am ei benderfyniad o fewn 8 wythnos o'r dyddiad y derbyniodd y cais (yn yr amgylchiadau hyn, ystyrir bod y cais wedi cael ei wrthod);
- methiant yr Awdurdod i gytuno ar fater yr oedd angen iddo gytuno arno o dan delerau amod caniatâd.

4.2 Ni allwch apelio:

- os ydych eisiau gwrthwynebu TPO;
- os ydych chi'n gwrthwynebu gwrthodiad Cyfoeth Naturiol Cymru i roi trwydded dorri (hyd yn oed os yw'r goeden dan sylw yn cael ei gwarchod gan TPO).

5. Sut gallaf apelio?

5.1 Dylech gyflwyno'ch apêl gan ddefnyddio'r ffurflen apêl TPO sydd ar gael gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae'r ffurflen apêl ar gael ar-lein; defnyddiwch y ddolen isod. Cysylltwch â'n swyddfa os oes arnoch angen copi caled. Cyn llenwi'r ffurflen apêl, darllenwch ein cyfarwyddyd ar Atodiad 01 " [Sut i gwblhau a chyflwyno eich apêl](#)"

<http://gov.wales/topics/planning/appeals/appeal-guidance-and-information/advertisement-appeals/?skip=1&lang=cy>

5.2 Os ydych yn apelio yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd i dorri coeden neu yn erbyn amod sy'n mynnu eich bod yn plannu coeden arall/coed eraill yn lle rhai a gollir, dylech nodi rhywogaeth a maint unrhyw goeden/coed y byddech yn fodlon ei phlannu/eu plannu pe byddai'r apêl yn cael ei chaniatáu.

5.3 Wrth gyflwyno'ch apêl, bydd angen i chi nodi'n eglur pa waith rydych chi'n ceisio caniatâd ar ei gyfer. Os nad yw'ch apêl yn nodi'r gwaith arfaethedig yn ddigon eglur, ystyrir ei bod yn annilys a byddwn yn ei gwrthod. Bydd cais i "dorri'n ôl" neu "docio" rhai canghennau yn cael ei ystyried yn rhy amwys a byddai'n cael ei wrthod gan nad yw'n egluro maint y gwaith.

6. Gweithdrefn

6.1 Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r swyddogaethau apêl i Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae'r gweithdrefnau wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017, yn benodol Rhan 4 (Cynrychiolaethau Ysgrifenedig) Rheoliad 22. Mae rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau ar gael yn [Atodiad 02 – Gweithdrefnau](#).